# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 5ed Mawrth 2020 am 7.00 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Lumley (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Dai Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams.
Denfer Morgan (Clerc).

**301 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, Helen Evans a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**302 Datgelu Buddiannau a Threfn**

Datgelodd y Cynghorwyr John Lumley a Gwyndaf Morgan buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn nghais cynllunio A190813 y cyfeirir ato yng nghofnod 306 isod a bu iddynt adael yr ystafell ac ni chymerwyd rhan pellach ganddynt yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater.

Cafodd yr eitem ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Iwan Thomas.

**303 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Chwefror 2020 yn amodol ar gywiro 'cawl' yng nghofnod 300b) i ddarllen 'cŵn'.

**304 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:-

| | |
|---|---|
| Un Llais Cymru | £138 |
| Swyddfa Archwilio Cymru | £337.75 |
| *Cyflog y Clerc (Ion-Chwef-Mawrth):* | |
| Denfer Morgan | £286.85 |
| CThEM (TWE) | £71.71 |
| Costau Swyddfa'r Clerc | £52.56 |

**305 Ceisiadau Am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i dri cais am gyfraniad cyllidol a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:-

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Ciliau Parc – £150
Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch - £100
Treialon Rhyngwladol Cŵn Defaid Ceredigion Medi 2020 - £50

**306 Cais Cynllunio A190813 - Avicenna, Bidaren, Cilcennin. Codi adeilad pacio a dosbarthu.**

Nodwyd for y cais cynllunio wedi'i gyfeirio at Bwyllgor Rheoli Datblygu y Cyngor Sir ond nad oedd yn ymddangos ar agenda cyfarfod Mis Mawrth, Disgwylid felly iddo gael ei drafod yng nghyfarfod mis Ebrill y Pwyllgor. Roedd yna gyfle i benodi cynrychiolydd i gyflwyno sylwadau'r Cyngor ar y cais yn y cyfarfod.

**307 Cais Cynllunio A190079 - Y Beudy Bach, Tynllain, Ciliau Aeron (Torri amodau deiliadaeth a roddwyd ar gais cynllunio A050070)**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r hysbysiad fod yr Apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i wrthod y cais cynllunio uchod yn cael ei glywed mewn Ymchwiliad Cyhoeddus ar 18fed o Fawrth 2020 yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron.

**PENDERFYNWYD** nodi'r hysbysiad.

**308 Adeilad Ysgol Gynradd Cilcennin**

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ateb i'w ymholiad am y drefn y byddai'r Cyngor Sir yn ei ddilyn er mwyn delio gyda'r adeilad a **PHENDERFYNWYD** gofyn eto am ateb.

**309 Rhybudd o Gynnig – Annibyniaeth i Gymru**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Rhybudd o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Iwan Thomas ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Arwel Jones, yn gofyn i'r Cyngor gefnogi nod YesCymru.

Cafwyd trafodaeth manwl a brwd ar y mater ac, yn dilyn sylwadau a wnaed gan rai Aelodau o'r Cyngor ar natur y cynnig, pwysleisiwyd mai byrdwn y cynnig oedd cefnogi'r broses, a gefnogwyd gan sawl mudiad yng Nghymru, o ennill annibyniaeth i Gymru.

I'r perwyl hynny, ac yn dilyn pleidlais ar y cynnig, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol i ddatgan fod y Cyngor yn cefnogi'r broses a amlygir yn nod YesCymru o "wella'r ffordd mae'n wlad yn cael ei llywodraethu'' ac yn rhannu'r weledigaeth o "ddinasyddiaeth gynhwysol, sy'n croesawu a dathlu'r ffaith fod pob un – o ba bynnag gefndir – sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt yn ddinasyddion llawn y Gymru Newydd".

## 310 Unrhyw Fater Cymwys Arall

a) Cyfeiriodd y Cynghorydd Alwen Thomas at y trefniadau ar gyfer sicrhau fod pobl ar gael wedi'u hyfforddi i ddefnyddio diffibrilyddion yn Neuaddau Cilcennin a Chiliau Aeron a chytunwyd gwahodd person i'r cyfarfod nesaf i ddiweddaru'r Cyngor ar y gofynion.

b) Cyfeiriodd y Cynghorydd Iwan Thomas at statws rhai llwybrau cyhoeddus o fewn y Gymuned a chytunwyd gwahodd Eifion Jones, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus y Cyngor Sir i wneud cyflwyniad ar y mater.

c) Cyfeiriodd y Cynghorydd Ray Williams at yr angen i orffen y gwaith o wella llwybr y Rhos. Ystyriwyd hefyd drefnu sesiwn codi sbwriel yn yr ardal a chytunwyd ar y 18fed o Fawrth yng Nghiliau Aeron ac ar yr 21ain yng Nghilcennin.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:00pm